

Ymgynghoriad â Phlant a Phobl Ifanc ynghylch Gwahardd Gwerthu Cŵn Bach a Chathod Bach yn Fasnachol gan Drydydd Parti

Adroddiad Canfyddiadau Plant yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru

Tegan Waites

Awst 2020



Children in Wales
Plant yng Nghymru




Cymru Ifanc
Young Wales

Cynnwys

- Crynodeb Gweithredol
- Plant yng Nghymru
- Methodoleg
- Dadansoddi Data'r Cyfranogwyr
- Canfyddiadau Allweddol

- Pam rydych chi'n meddwl dylen ni fod yn gwahardd y busnesau yma rhag gwerthu cŵn bach a chathod bach?
- Oes yna unrhyw beth arall gallen ni wneud, heblaw am waharddiad, i sicrhau bod pob ci bach a chath fach sy'n cael eu gwerthu gan un person i berson arall ac ymlaen i un arall yn cael gofal priodol a phopeth maen nhw angen?
- Sut rydych chi'n meddwl dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru gael eu gwirio'n rheolaidd?
- Ydych chi'n meddwl dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu hystyried yn "werthwyr masnachol trydydd parti" yng Nghymru, a bod angen trwydded arnyn nhw i godi tâl fel y gwerthwyr anifeiliaid anwes?

- Diwedd glo



Crynodeb Gweithredol

Y llynedd cynhaliodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil yn holi'r cyhoedd a ddylen nhw ymwneud â'r diwydiant bridio i ddelio gydag unrhyw bryderon ynghylch lles anifeiliaid. Cytunodd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd y dylai gwerthu cŵn bach a chathod bach yn fasnachol gan drydydd parti gael ei atal neu ei wahardd, ac o ganlyniad i'r cam ymchwil cychwynnol hwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfreithiau newydd i gefnogi'r argymhellion a gafwyd.

Eleni gofynnodd Llywodraeth Cymru i Plant yng Nghymru, trwy fenter Cymru Ifanc, gynnal ymgynghoriad plant a phobl ifanc, yn gofyn iddyn nhw roi eu barn ar wahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti. Roedd ffocws ar 4 cwestiwn, a'r nod oedd clywed lleisiau plant a phobl ifanc a'u hargymhellion er mwyn llywio a chefnogi datblygiad y cyfreithiau newydd yn y maes hwn ymhellach; rhan o'u hagenda cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Cynhaliodd Cymru Ifanc, fel rhan o Plant yng Nghymru, ymgynghoriad ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2020 i geisio barn plant a phobl ifanc mewn perthynas â gwahardd gwerthu cathod bach a chŵn bach gan drydydd parti. Fe gawson ni ymatebion gan 59 o blant a phobl ifanc o wahanol rannau o Gymru, gyda ffocws ar 4 cwestiwn, sy'n llywio is-benawdau'r adroddiad hwn er mwyn dadansoddi'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

- Pam rydych chi'n meddwl dylen ni fod yn gwahardd y busnesau yma rhag gwerthu cŵn bach a chathod bach?
- Oes yna unrhyw beth arall gallen ni wneud, heblaw am waharddiad, i sicrhau bod pob ci bach a chath fach sy'n cael eu gwerthu gan un person i berson arall ac ymlaen i un arall yn cael gofal priodol a phopeth maen nhw angen?
- Sut rydych chi'n meddwl dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru gael eu gwirio'n rheolaidd?
- Ydych chi'n meddwl dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu hystyried yn "werthwyr masnachol trydydd parti" yng Nghymru, a bod angen trwydded arnyn nhw i godi tâl fel y gwerthwyr anifeiliaid anwes?

Rhodddwyd cyfle i'r plant a'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn rannu eu barn a'u safbwyntiau, yn ogystal â chynnig argymhellion mewn ymateb i'r cwestiynau am wahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti. Mae Plant yng Nghymru wedi coladu ymatebion, prif ganfyddiadau ac argymhellion yr ymgynghoriad, a fydd yn cael sylw yn yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru.



Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Rhan o waith Plant yng Nghymru yw menter Cymru Ifanc sy'n chwyddo ac yn cefnogi lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru i gael eu clywed, eu gwranddo, ac fel eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.



Defnyddiwyd menter Cymru Ifanc i gynnal y gwaith ymchwil hwn gyda phlant a phobl ifanc er mwyn bwydo i'r ymgynghoriad hwn gan Plant yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru, ar wahardd gwerthu cathod bach a chŵn bach gan drydydd parti.

Methodoleg


Prif bwrpas Cymru Ifanc yw cefnogi cyfranogiad a galluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u gwrando er mwyn llywio penderfyniadau a allai effeithio ar eu bywydau.

Yn ystod pandemig Covid-19 bu angen i gyfranogiad plant a phobl ifanc a chlywed eu lleisiau gael eu chwyddo a'u gwrando mewn ffordd wahanol i'r dulliau bydden ni wedi eu defnyddio'n flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o waith yn awr yn digwydd ar-lein o bell, ac ar hyd y pandemig mae Plant yng Nghymru wedi bod yn datblygu dulliau priodol o sicrhau bod safonau cyfranogiad ac arfer da yn parhau tra bod pawb ohonom yn gweithio mewn ffordd wahanol iawn i'r arfer.

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad ar wahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti trwy ddefnyddio arolwg ar-lein. Fe ddefnyddion ni'r platfformau Snap a Forms ar-lein i gasglu'r data gan y plant a'r bobl ifanc. Ochr yn ochr â'r platfformau ar-lein a ddefnyddiwyd, fe ddatblygon ni ymgyrch farchnata a Chyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo a rhannu'r gwaith, er mwyn cyrraedd cynifer o blant a phobl ifanc ag y gallen ni trwy'r dull yma.

Cytunwyd ar gwestiynau'r arolwg gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'u seilio ar gwestiynau allweddol o'r 'brif' ddogfen ymgynghori. Addaswyd y cwestiynau a'r wybodaeth oedd yn cyd-fynd â nhw er mwyn bod yn hygyrch i blant a phobl ifanc. Bu elusennau Lles Anifeiliaid yn ymwneud â datblygu'r cwestiynau.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu barn a gwneud argymhellion yn uniongyrchol i lunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac yn dylanwadu i greu newidiadau cadarnhaol mewn perthynas â lles anifeiliaid ledled Cymru.



Dadansoddi Data Cyfranogwyr:

Cyfanswm yr Ymatebion:

59

Data o dan 18:

Cyfanswm yr ymatebion gan rai o dan 18 oed:

44


Oed cyfartalog:

13

Yn gallu siarad Cymraeg?

Ie 30% Na 70%

Dosbarthiad yr ymatebwyr ar draws Ardaloedd Awdurdodau Lleol:



Data dros 18:

Cyfanswm yr ymatebion gan rai 18 oed a throsodd:

15



Oed cyfartalog:

25

Yn gallu siarad Cymraeg?

Ie 20% Na 80%

Dosbarthiad yr ymatebwyr ar draws Ardaloedd Awdurdodau Lleol:



Prif Ganfyddiadau

Pam rydych chi'n meddwl dylen ni fod yn gwahardd y busnesau yma rhag gwerthu cŵn bach a chathod bach?

Roedd

96%

o'r plant a'r bobl ifanc o dan 18 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo'n gryf y dylai fod gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti, gyda

2%

yn anghytuno a

2%

yn ansicr

Ymhlith y prif themâu a ddaeth i'r golwg o'r cwestiwn hwn roedd lles yr anifeiliaid fel prif flaenoriaeth ac ystyriaeth, yn ogystal â'r angen i gŵn bach a chathod bach aros gyda'u 'Mam'.

Dyfyniad: Mae'n annynol, ac rwy'n credu byddai'n lleihau nifer yr anifeiliaid sy'n marw'n ifanc iawn oherwydd creulondeb a diffyg gofal. Byddai hefyd yn lleihau nifer y cŵn bach/cathod bach sy'n cael eu cymryd oddi wrth eu mam yn ifanc iawn, gan achosi llawer o broblemau fel llai o system imiwedd a diffygion o ran maetholion.

Roedd pryderon ynghylch busnesau'n gwneud enillion elw ar draul lles yr anifeiliaid, gorfridio a phresenoldeb ffermydd cŵn bach yng Nghymru.

Dyfyniad: Ddylai anifeiliaid ddim gorfod dioddef er mwyn i bobl wneud elw. Dylai cathod bach a chŵn bach gael eu trin â pharch a chariad.

Cynigiodd y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd argymhellion fel gorfodi proses gofrestru a thrwyddedu ar gyfer bridwyr cŵn bach a chathod bach, gyda lles yr anifeiliaid yn greiddiol i'w hawgrymiadau.

Dyfyniad: Dylai pob ci bach a chath fach gael eu prynu gan berchennog trwyddedig, gyda mam y cŵn bach a'r cathod bach, i leihau risg yr afiechydon a'r cyflyrau ofnadwy mae rhai anifeiliaid yn eu dioddef.

Roedd

87%

o'r plant a'r bobl ifanc dros 18 hefyd yn teimlo'n gryf y dylai fod gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti, gydag

13%

yn ansicr.

Dyfyniad: Ydw, rwy'n credu dylen nhw gael eu stopio. Mae angen gofalu mai dim ond y bobl sydd biau'r fam sy'n gallu hysbysebu a gwerthu cŵn bach a chathod bach.

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg gyda'r grŵp oed yma yn cynnwys y ffaith bod amodau gwerthwyr trydydd parti yn greulon ac yn annynol, ac roedden nhw hefyd yn cytuno â'r ymatebwyr o dan 18 bod aros gyda'u 'Mam' yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant y cŵn bach a'r cathod bach, gan wneud y sylw eu bod nhw'n teimlo mai rheoliadau gwaeliawnsydd yn sefydliadau yma arhyno bryd, ac y dylen nhw gael eu gwahardd.

Dyfyniad: Rwy'n cytuno'n llwyr y dylen ni wahardd gwerthwyr masnachol trydydd parti yng Nghymru – mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn cael ei hecsbloetio'n fawr gan y rhai sydd â mwy o ddiddordeb mewn elw na chonsyrn am les y cŵn bach a'r cathod bach eu hunain, sydd yn eu tro yn cael eu cadw mewn amodau dychrynlyd a'u gwahanu oddi wrth eu mamau'n gynnar. Mae'n helpu i guddio arfer troseddol, annynol ffermio cŵn bach rhag prynwyr, sy'n aml heb wybodaeth ac yn amau dim, ac yn golygu nad yw'r bridwyr hynny sydd am ecsbloetio'r system yn atebol. Rwy'n poeni bod hyn yn gadael canolfannau achub, sydd eisoes yn derbyn rhy ychydig o arian, i geisio datrys y sefyllfa pan fydd yr anifeiliaid bach hyn yn cael eu taro'n wael neu'n datblygu problemau ymddygiad.

Oes yna unrhyw beth arall gallen ni wneud, heblaw am waharddiad, i sicrhau bod pob ci bach a chath fach sy'n cael eu gwerthu gan un person i berson arall ac ymlaen i un arall yn cael gofal priodol a phopeth maen nhw angen?

Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r cwestiwn yma'n sicr y dylai fod gwaharddiad, neu cynigiwyd awgrymiadau eraill, gyda

14%

o'r ymatebwyr ddim yn siŵr ac

86%

yn cefnogi argymhellion amgen neu waharddiad llawn

O'r 86% roedd 10% yn hollol sicr mai dim ond gwaharddiad fyddai'n gweithio.

Y prif thema allweddol, o bell ffordd, mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd argymhelliad i gael cofrestr a chyflwyno trwyddedau i fridwyr cyfrifol, gyda gwiriadau dirybudd neu arolygiadau rheolaidd a phwerau i ddirymu trwyddau petai amodau'n cael eu torri. Pwysleisiwyd hefyd y dylai fod cyfrifoldeb ar brynwyr i wirio eu bod yn prynu gan fridiwr cofrestredig â thrwydded, ynghyd â chyfleoedd hyfforddi i berchnogion newydd ynghylch y ffordd orau i ddiwallu anghenion lles unrhyw anifail anwes newydd.

Fel rhan o'r awgrym y dylai bridwyr gael eu cofrestru a'u trwyddedu, teimlai'r plant a'r bobl ifanc y gellid darparu gwiriadau milfeddyg ynghyd â chofnod o frechiadau a thystysgrif iechyd, yn ogystal â gwneud yswiriant anifail anwes yn orfodol i bob perchennog. Cyfeiriwyd hefyd at ficrosglodion fel dull sydd wedi ennill ei blwyf o dracio perchnogion, cael hyd iddyn nhw a'u gwneud yn atebol am unrhyw achosion o esguluso lles anifeiliaid.

I gefnogi'r argymhellion, roedd yr ymatebwyr yn awyddus i hyrwyddo côd ymarfer safonau lles, a fyddai'n cynnwys isafswm oed ar gyfer gwerthu neu brynu cŵn bach a chathod bach, sef 18 wythnos, yn ogystal â 12 wythnos fel isafswm oed safonol y cŵn bach a'r cathod bach i'w gwerthu. Ar ben hynny, cyflwynwyd argymhellion i gyfyngu ar gapasiti bridwyr i werthu cŵn bach a chathod bach, gyda'r posibilrwydd o gosbi'n llymach am dorri'r rheoliadau hyn.

Dyfyniad: Dylai bridwyr gael eu gwirio'n rheolaidd, a chaiff bridwyr werthu i'r rhai sy'n chwilio am anifail anwes a bridwyr eraill sydd â thystysgrif yn unig (nid pobl fydd yn eu gwerthu ymlaen). Rhaid cynnal gwiriadau rheolaidd, ac mewn egwyddor gallai cyfyngu ar nifer y cŵn 'bridio' mae modd bod yn berchen arnyn nhw leihau tebygolrwydd amodau annynol, heb ddigon o le. Rwy hefyd yn meddwl bod rhaid i fridwyr ddangos tystysgrif bridwr wedi'i achredu i brynwyr bob amser cyn iddyn nhw brynu, ac os byddan nhw'n gwrthod dangos tystysgrif, dylid rhoi gwybod am hynny a chynnal ymchwiliad iddyn nhw. Dylai'r rhai a gafwyd yn euog o driniaeth annynol gael eu gwahardd rhag cadw cathod bach a chŵn am oes, hyd yn oed eu hanifeiliaid anwes eu hunain, gan fod diffyg cosb yn y gorffennol wedi caniatáu i gam-drin anifeiliaid barhau.


Roedd plant a phobl ifanc yn awyddus i hyrwyddo defnydd o ganolfannau achub a chanolfannau mabwysiadu anifeiliaid yn hytrach na gwerthu cŵn bach a chathod bach o berson i berson.

Dyfyniad: Hyrwyddo canolfannau achub yn well a'r anifeiliaid yno sydd angen cartrefi

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at Gyfraith Lucy, sydd eisoes ar waith yn Lloegr; ond gwnaed sylwadau nad yw'r gyfraith hon yn mynd yn ddigon pell o ran atal ffermydd cŵn bach ac esgeuluso anifeiliaid, ond y dylid edrych arni ymhellach i helpu i lywio'r cyfreithiau a'r polisiau newydd sy'n cael eu datblygu yng Nghymru.

Dyfyniad: Mae angen stopio ffermydd cŵn bach a bridwyr iard gefn, a does dim modd gwneud hynny gyda'r ddeddfwriaeth bresennol. Hyd yn oed petai cyfraith Lucy yn ei lle, dyw hynny'n dal ddim yn waharddiad llawn. Mae angen bod terfyn ar nifer y cŵn bridio gall un person fod yn berchen arnyn nhw. Ac mae angen i hynny gael ei gadw dan reolaeth fanwl, gydag ymweliadau annisgwyl mynych

n yr un modd, yn ymatebion y rhai dros 18 oed, roedd y mwyafrif yn sicr y dylai fod gwaharddiad, neu cynigiwyd awgrymiadau eraill oedd yn cyfateb i'r argymhellion uchod; gyda



o'r ymatebion ddim yn siŵr a



yn cefnogi argymhellion amgen neu waharddiad llawn.

O'r 93% roedd 6% yn hollol sicr mai dim ond gwaharddiad fyddai'n gweithio.

Dyfyniad: Rwy'n credu bod gwaharddiad yn gam cyntaf hanfodol, a bod dim modd ei osgoi. Serch hynny, bydd angen ei ategu a'i gefnogi â gwell addysg i brynwyr, gwell dogfennaeth a deddfwriaeth i dracio iechyd a lles yr anifeiliaid (e.e. contractau cŵn bach) a mwy o gyllid ar gyfer yr RSPCA ac ati i reoli ac ymateb i adroddiadau am arfer anghyfreithlon sy'n parhau.

Roedd ymatebwyr yn y grŵp oed yma yn credu'n angerddol bod angen gwaharddiad i amddiffyn lles anifeiliaid, ac roedden nhw'n teimlo y byddai angen rheoliadau llymach, trwyddedau, gwiriadau dirybudd ac arolygiadau yn ogystal yn sylfaen ar gyfer unrhyw waharddiad, ac i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau.

Dyfyniad: Y cam gweithredu gorau yw bod y prynwr yn gweld ble cafodd y ci bach ei fagu, yn gweld y rhieni a'r cenelau. Byddai hynny'n golygu bod rhaid i fridwyr roi trefn ar bethau gyda gwell cenelau a lle addas i'r cŵn redeg, a gwneud peth cymdeithasu. Fyddai neb eisiau prynu ci bach gyda'r fam yn swatio yng nghefn y caets.

Sut rydych chi'n meddwl dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru gael eu gwirio'n rheolaidd?

Roedd



o'r cyfranogwyr yn cytuno y dylai sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru gael eu gwirio'n rheolaidd, gyda



yn ansicr.

Dyfyniad: Mae angen trefnu siopwyr dirgel neu eu gwirio heb system apwyntiadau, fel bod y rhai sy'n bridio ddim yn newid yr amodau sydd gan y cŵn bach. Dylai gwerthwyr anifeiliaid anwes ddim bod yn Sefydliadau Lles Anifeiliaid. Bydd hynny'n achosi dryswch.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys cofrestru a thrwyddedu, ynghyd ag archwiliadau gorfodol gan filfeddyg ac ardystio iechyd anifeiliaid yn eu gofal yn rheolaidd, ochr yn ochr â gwiriadau dirybudd ar hap yn y sefydliadau hyn, i sicrhau bod anghenion lles anifeiliaid yn cael eu cyflawni.

Dyfyniad: Fyddai sefydliadau Lles Anifeiliaid sy'n wir yn gofalu am eu hanifeiliaid ddim yn gwrthwynebu gwiriadau rheolaidd.

Yn y categori hŷn o ymatebwyr roedd

93%

yn cytuno bod angen gwiriadau rheolaidd, gyda

7%

yn ansicr.

Dyfyniad: Fydd y sefydliadau hynny sy'n gweithredu yn ôl y gyfraith ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ofalu am yr anifeiliaid yn eu gofal ddim yn cael eu rhoi dan anfantaes gan y broses hon, ond bydd unrhyw un sy'n camymddwyn yn cael eu gwneud yn atebol.

Roedd y prif themâu yn canolbwyntio ar les anifeiliaid gydag argymhellion ar gyfer gwiriadau rheolaidd a phroses gofrestru a thrwyddedu.

Dyfyniad: dylen nhw gael eu gwirio bob amser i wneud yn siŵr bod unrhyw anifeiliaid yn eu gofal yn cael bwyd a dŵr priodol a meddyginiaeth addas, yn ogystal â sicrhau bod ganddyn nhw le boddhaol i orffwys.

Ydych chi'n meddwl dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu hystyried yn "werthwyr masnachol trydydd parti" yng Nghymru, a bod angen trwydded arnyn nhw i godi tâl fel y gwerthwyr anifeiliaid anwes?

Fe gawson ni ymateb amrywiol i'r cwestiwn hwn, ond roedd mwyafrif o

62%

yn cytuno y dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu hystyried yn werthwyr trydydd parti a bod angen trwydded arnyn nhw i werthu anifeiliaid fel rhan o'u busnes neu eu helusen.

Serch hynny, roedd

32%

yn anghytuno, ac yn teimlo, oherwydd bod y rhain gan amlaf yn sefydliadau elusennol, y dylen nhw gael eu heithrio, gan mai eu nodau fyddai ailgartrefu a rhoi blaenoriaeth i les yr anifeiliaid yn eu gofal, a chodi tâl dim ond am gostau ailgartrefu a gwiriadau iechyd. Roedd

6%

o'r ymatebwyr yn ansicr.

Dyfyniad: Gall sefydliadau lles anifeiliaid fod yn llefydd creulon hefyd os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu trin yn dda. Mae'n dilysu'r sefydliad ac yn gwneud mabwysiadwyr yn fwy hyderus o ran y lle maen nhw'n mabwysiadu ohono. Byddai trwydded yn sicrhau eu bod nhw o dan yr un rwymedigaeth i sicrhau diogelwch, iechyd a lles yr anifeiliaid yn eu gofal. O bosib gallen nhw gael math gwahanol o drwydded sy'n nodi nad bridwyr ydyn nhw a'u bod nhw'n derbyn anifeiliaid i'w gofal yn hytrach na'u bridio. Mae hynny hefyd yn sicrhau nad ydyn nhw'n derbyn anifeiliaid i'w gofal ac yna'n cael hawl i'w gwneud nhw'n gŵn 'bridio', gan fod hynny'n achosi trawma pellach i anifeiliaid agored i niwed.

Teimlai llawer y dylen nhw gael eu hystyried yn werthwyr trydydd parti a bod angen trwyddedau ac arolygiadau rheolaidd arnyn nhw os ydyn nhw'n codi tâl am ailgartrefu'r anifeiliaid yn eu gofal, ond teimlai rhai ymatebwyr y dylen nhw ddal i gael eu hystyried yn elusen, gan argymhell newid i'r rheolau a'r rheoliadau i gymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau rhwng sefydliadau lles anifeiliaid a gwerthwyr trydydd parti o ran pwrpas eu busnes a'r brif flaenoriaeth sy'n greiddiol i'w gwaith, sef lles anifeiliaid.

Dyfyniad: Na, dylai fod newid i'r gyfraith i sicrhau eu bod nhw'n dal i fedru gweithredu fel Elusen ond gyda gwiriadau rheolaidd. Dylai'r uchafswm o ran ffi sy'n cael ei godi fod yn swm rhesymol i dalu am gost sbaddu, brechiadau ac ati. Dylid cadw'r ffi yma dipyn yn is na'r swm lle byddai'n ddeniadol i werthwyr trydydd parti ymsefydlu fel elusen les. Dylai'r gyfraith fynnu bod pob anifail sy'n cael ei ailgartrefu o elusen les yn cael eu sbaddu.

Roedd ffigurau ymateb y rhai dros 18 yn debyg iawn i'r rhai uchod, gyda

54%

yn cytuno y dylen nhw gael eu hystyried yn werthwyr trydydd parti,

32%

yn anghytuno, ac

13%

yn ansicr.

Roedd y prif themâu yn y grŵp oed yma yn cyfateb i'r argymhellion gan yr ymatebwyr o dan 18 uchod, gyda arolygiadau rheolaidd a chofrestru'n allweddol, ond hefyd yn cydnabod bod y sefydliadau hyn yn darparu gwasanaeth hanfodol i anifeiliaid sydd wedi'u gadael a'u hesgeuluso.

Dyfyniad: Byddai trwydded yn gam ychwanegol i atal ffermydd cŵn bach a chathod bach, ond yn dal i ganiatáu i'r canolfannau achub sydd â bwriadau da fedru codi arian ar gyfer y gwaith hollbwysig maen nhw'n ei wneud.



Casgliadau ac Argymhellion

Mae lles anifeiliaid wedi bod yn thema gyson a gofnodwyd gan yr ymatebwyr ar hyd yr ymgynghoriad hwn, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i amddiffyn cŵn bach a chathod bach a'u cadw gyda'u 'Mam' yn ystod cyfnodau cynharaf eu bywydau.

Y pwyntiau allweddol amlycaf o bell ffordd, a godwyd ar draws pob un o'r 4 cwestiwn yn yr ymgynghoriad oedd trwyddedu, arolygiadau rheolaidd a chôt ymddygiad, ynghyd â phecynnau hyfforddi a disgwyliadau i brynwyr. Y gobaith yw y bydd modd symud ymlaen gyda'r rhain er mwyn amddiffyn anifeiliaid, prynwyr a gwerthwyr yn y sector hwn wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r cyfreithiau newydd yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti, ond roedd y mwyafrif yn llai mewn perthynas â sefydliadau lles anifeiliaid a theimlid bod angen i'r rheoliadau oedd yn cael eu cynnig mewn perthynas â'r rhain fod yn wahanol er mwyn cydnabod eu gwasanaethau a'u diben penodol. Nodwyd yn glir fod gwahaniaeth pendant rhwng gwerthwyr trydydd parti a sefydliadau lles anifeiliaid ac y dylid cydnabod ac ystyried hynny mewn unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran y cyfreithiau sy'n ymwneud â'r maes hwn, yn ôl y sampl a gafwyd o leisiau a barn plant a phobl ifanc ledled Cymru.

